Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

10 Gorffennaf 2019



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6472**
E-bost: **Sara.Moran@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**


# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

10 Gorffennaf 2019


**Awduron:**
Sara Moran a Natasha Cowley


Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys

**1. Rhagarweiniad** ..... **1**

**2. Datblygiadau yn San Steffan** ..... **2**

Brexit Heb Gytundeb ..... 2

Panel arbenigol i adolygu'r rheolau mudo ar gyfer y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr ..... 3

Adolygiad y DU o strwythurau datganoli ..... 4

**3. Datblygiadau ym Mrwsel** ..... **5**

Y Cytundeb Ymadael ..... 5

Uwchgynhadledd Cyngor yr UE ar 20-21 Mehefin ..... 5

Enwebiadau ar gyfer swyddi uwch yn yr UE ..... 6

Sefydlu Awdurdod Llafur Ewrop ..... 7

**4. Datblygiadau yng Nghymru** ..... **8**

Prif Weinidog Cymru ..... 8

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit ..... 10

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ..... 12

Rheoliadau Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (Ymadael a'r UE) 2019 ..... 13

**Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro – 10 Gorffennaf 2019

**5. Meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** ..... **15**

Iwerddon ..... 15

**Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro – 10 Gorffennaf 2019

# 1. Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE ers 12 Mehefin 2019. I weld y datblygiadau cyn hyn, gweler ein **hadroddiadau monitro blaenorol.**

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb o'r prif ddatblygiadau diweddaraf yn y negodiadau a deddfwriaeth gysylltiedig y DU;
- Dadansoddiad manwl o'r datblygiadau allweddol yn San Steffan a Brwsel;
- Dadansoddiad o ymateb Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i'r datblygiadau diweddaraf; a
- Dadansoddiad o'r materion o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (y Pwyllgor).

# 2. Datblygiadau yn San Steffan

Ar 24 Mai, cyhoeddodd y Prif Weinidog, Theresa May, y byddai'n ymddiswyddo ddydd Gwener 7 Mehefin, gan achosi etholiad am arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol. Dechreuodd y broses hon ddydd Llun 10 Mehefin ac mae'n parhau. Ar 25 Mehefin, cadarnhaodd y Blaid Geidwadol mewn datganiad i'r wasg y byddai **arweinydd newydd yn cael ei gyhoeddi ar 23 Gorffennaf.** Mae'r Prif Weinidog eisoes **wedi gadael ei rôl yn swyddogol fel arweinydd y blaid** ond bydd yn parhau fel Prif Weinidog tan y dyddiad hwn.

## Brexit Heb Gytundeb

Ar 4 Mehefin, dywedodd Liam Fox, yr Ysgrifennydd Masnach Ryngwladol, wrth raglen Today Radio 4 y BBC **fod Brexit 'dim cytundeb' yn peryglu parhad yr Undeb**:

> Number one is that we want a deal, because we think that is the best way to leave the European Union with minimal disruption. But equally, and it has to be delivered with equal volume and equal strength, if we can't get an agreement, we have to be willing to walk away, otherwise we have no real negotiating hand.

Aeth yn ei flaen i ddweud:

> The prospect of a no-deal might well be used by those who seek to break up the United Kingdom, to use that as a weapon in that particular battle, both I think in Northern Ireland and potentially in Scotland.

Ar 6 Mehefin, yn dilyn awgrymiadau y byddai rhai o'r ymgeiswyr am arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol yn barod i ohirio'r Senedd i orfodi Brexit dim cytundeb, dywedodd Llefarydd y Tŷ, **John Bercow,** na chaiff y Senedd mo'i gohirio:

> Parliament will not be evacuated from the centre stage of the decision-making process on this important matter. That is simply not going to happen; it is so blindingly obvious that it almost does not need to be stated—but apparently it does and therefore I have done.

Cyhoeddodd y **Sefydliad dros Lywodraeth ddadansoddiad** o'r camau y gallai'r Llefarydd eu cymryd i gynnwys y Senedd yn y broses, gan gynnwys caniatáu pleidleisiau i newid deddfwriaeth, cyflwyno cynigion, a chwestiynau a dadleuon brys.

Ar 7 Mehefin, ymddiswyddodd **Swyddog y DU a oedd yn gyfrifol am y trefniadau o ran y ffiniau ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.** Fel Cyfarwyddwr Cyffredinol grŵp cyflawni ffiniau Brexit yng Nghyllid a Thollau Ei Mawrhydi, roedd cyfrifoldebau Karen Wheeler yn cynnwys cynllunio ar gyfer argyfwng yn Dover ac Iwerddon yn achos dim cytundeb a chydlynu'r heddlu, porthladdoedd, tollau a nwyddau.



**Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro – 10 Gorffennaf 2019

Ar 10 Mehefin, **soniwyd bod llai na 10 y cant o gwmnïau** wedi gwneud cais i'r cynllun Gweithdrefnau Symlach Trosiannol (TSP) i baratoi ar gyfer Brexit dim cytundeb. Mae cynllun Cyllid a Thollau EM yn caniatáu i gwmnïau yn y DU fewnforio nwyddau o dir mawr Ewrop heb orfod gwneud datganiadau tollau ar y ffin ac mae'n eu galluogi i ohirio talu tollau mewnforio am flwyddyn. O'r 240,000 o gwmnïau yr amcangyfrifir bod angen y cynllun arnynt, dim ond 17,800 o gwmnïau sydd wedi gwneud cais.

Ar 12 Mehefin, arweiniodd y Blaid Lafur **gynnig i osgoi dim cytundeb** ond cafodd ei drechu yn Nhŷ'r Cyffredin gan 309 o bleidleisiau i 298. Byddai'r cynnig wedi caniatáu i'r Senedd gipio rheolaeth ar yr agenda Seneddol ar 25 Mehefin. Yng Nghymru, **anogodd y Prif Weinidog ei gydweithwyr yn San Steffan** i wrthod Brexit dim cytundeb a dod o hyd i 'ffordd ymarferol' ymlaen cyn y bleidlais:

> Os bydd y Senedd yn llwyddo i reoli'r agenda ar 25 Mehefin, dylai ddeddfu nid yn unig i atal dim cytundeb, ond hefyd i orfodi'r Llywodraeth i gyflwyno bil refferendwm erbyn 31 Gorffennaf. Rhaid i hyn gael ei wneud yn gyflym – allwn ni ddim fforddio'r niwed economaidd sy'n digwydd bob dydd yn sgil yr ansicrwydd ynglŷn â Brexit, a byddai'r Gwasanaeth Sifil yn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith o baratoi'r ddeddfwriaeth yn lle bod amser yn cael ei wastraffu i gynnal etholiad am arweinyddiaeth y Toriaid.
>
> Wrth gwrs, os na fydd y Prif Weinidog nesaf yn barod i dderbyn hyn, bydd dewis arall ar gael – sef galw etholiad cyffredinol.

Ar ôl colli'r bleidlais, dywedodd Keir Starmer, Ysgrifennydd yr Wrthblaid dros Ymadael yr Undeb Ewropeaidd, y byddai'r Wrthblaid yn edrych am gyfleoedd a dulliau amgen i geisio mwyafrif yn erbyn dim cytundeb.

Ar 25 Mehefin, cyhoeddodd **Cymdeithas Gwneuthurwyr a Masnachwyr Moduron (SMMT)** ddadansoddiad newydd yn amcangyfrif y gallai Brexit heb gytundeb gostio mwy na £70 miliwn y dydd yn ychwanegol i wneuthurwyr ceir y DU:

> Delays to shipments of parts to production plants are measured in minutes, with every 60 seconds costing £50,000 in gross value added – amounting to some £70 million a day in a worst case scenario. Combined with WTO tariffs, which for trade in passenger cars alone amount to £4.5 billion a year, this would deliver a knockout blow to the sector's competitiveness, undermining a decade of extraordinary growth.

Galwodd yr SMMT ar Brif Weinidog nesaf y DU i sicrhau 'cytundeb Brexit ffafriol'.

## Panel arbenigol i adolygu'r rheolau mudo ar gyfer y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr

Ar 24 Mehefin, cyhoeddodd **Swyddfa Gartref y DU** ei bod wedi gofyn i banel arbenigol

asesu a ddylai'r rheolau mewnfudo ar ôl Brexit fod yn wahanol yng Nghymru. Daeth y newyddion hwn yn sgil tystiolaeth y bydd y cynigion mewnfudo newydd yn effeithio'n fwy anghymesur ar Gymru na gweddill y DU. Mae Llywodraeth y DU am adolygu ei chynlluniau i gyflwyno trothwy newydd o isafswm cyflog o £30,000 i ymfudwyr crefftus sy'n awyddus i gael fisa am bum mlynedd. Yn ôl Sajid Javid, yr Ysgrifennydd Cartref:

> These proposals are the biggest change to our immigration system in a generation, so it's right that we consider all of the evidence before finalising them. It's crucial the new immigration system works in the best interests of the whole of the UK.

Mae wedi gofyn i'r Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo (MAC) ystyried:

> whether…salary thresholds are applicable to the whole of the United Kingdom or whether there is a need for greater regional variation.

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ym mis Ionawr 2020. Mae Jeremy Miles, Cwnsler Cyffredinol Cymru a'r Gweinidog Brexit, eisoes wedi galw am sicrhau bod **unrhyw drothwy cyflog 'ymhell o dan £30,000'.** Mewn ymateb i gyhoeddiad Llywodraeth y DU, dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru:

> A £30,000 threshold would not work for Wales and would hit our economy hard. Nurses, junior doctors, vets and a range of workers we need for our public services and industry will find it much more difficult and less attractive to come to Wales under these proposals.

Yn ystod y **Cyfarfod Llawn ar 11 Mehefin,** cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit ddatganiad ar fewnfudo, lle cadarnhaodd nad ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru cyn **Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar fewnfudo ar ôl Brexit** ond bod Llywodraeth Cymru bellach yn rhan o broses ymgysylltu 12 mis gyda chynrychiolwyr y Swyddfa Gartref, Llywodraeth yr Alban a Gogledd Iwerddon. At hynny, cyhoeddodd y Prif Weinidog **ddatganiad yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr dinasyddion yr UE** i Gymru. Yn y datganiad, cyhoeddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni cyfreithiol i ddarparu cymorth a chyngor mewnfudo i ddinasyddion yr UE yng Nghymru, yn enwedig i grwpiau agored i niwed.

## Adolygiad y DU o strwythurau datganoli

Ar 4 Gorffennaf, soniwyd y byddai'r **Prif Weinidog, Theresa May, yn cyhoeddi adolygiad** ar ddatganoli. Caiff yr adolygiad ei gadeirio gan gyn-Weinidog Swyddfa'r Alban, yr Arglwydd Dunlop, a bydd yn argymell gwelliannau i gysylltiadau rhynglywodraethol, yn benodol sut mae adrannau Llywodraeth y DU yn cydweithredu ar ddatganoli.



**Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro – 10 Gorffennaf 2019

# 3. Datblygiadau ym Mrwsel

## Y Cytundeb Ymadael

Trwy gydol mis Mehefin, ailbwysleisiodd arweinwyr yr UE eu safbwynt na fydd y Cytundeb Ymadael yn cael ei ail-negodi. Ar 11 Mehefin, **eglurodd Jean-Claude Juncker,** Llywydd Comisiwn yr UE, fel a ganlyn:

> This is not a treaty between Theresa May and Juncker. This is a treaty between the United Kingdom and the European Union. It has to be respected. It has to be respected by whomsoever will be the next British prime minister. There will be no renegotiations as so far as the content of the Withdrawal Agreement is concerned.

Yn ddiweddarach, **ychwanegodd** Llywydd Cyngor yr UE, Donald Tusk:

> Maybe the process of Brexit will be even more exciting than before because of some personnel decisions in London, but nothing has changed when it comes to our position.

Ar 12 Mehefin, **cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ddatganiad** ynghylch y parodrwydd i ymadael, a oedd yn ailbwysleisio fel a ganlyn:

> Unless the United Kingdom ratifies the Withdrawal Agreement by 31 October 2019 or requests a third extension, to which the European Council (Article 50) agrees by unanimity, the period under Article 50(3) TEU will end then. The United Kingdom will then be a third country as of 1 November 2019 without an agreement to ensure an orderly withdrawal.

## Uwchgynhadledd Cyngor yr UE ar 20-21 Mehefin

Yn Uwchgynhadledd Cyngor yr UE ar 20-21 Mehefin **cytunodd Arweinwyr yr UE** eu bod:

- yn edrych ymlaen at gydweithio â Phrif Weinidog nesaf y DU;
- eisiau osgoi Brexit afreolus a sefydlu perthynas mor agos â phosibl yn y dyfodol â'r DU;
- yn agored i drafodaethau o ran y Datganiad ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol pe bai sefyllfa'r Deyrnas Unedig yn datblygu, ond nad yw'r cytundeb ymadael yn agored i'w ail-drafod;
- wedi cael gwybod am y sefyllfa o ran cynllunio ar gyfer senario dim cytundeb.

Lansiodd yr UE ei **agenda strategol newydd ar gyfer 2019-2024** yn yr Uwchgynhadledd. Mae'r agenda strategol yn gosod cyfeiriad cyffredinol a blaenoriaethau'r UE. Ar ôl yr uwchgynhadledd, **cyhoeddodd yr UE ei gasgliadau** a chytunwyd i gyfarfod eto ar

30 Mehefin i drafod ymhellach y penodiadau i swyddi uwch.

## Enwebiadau ar gyfer swyddi uwch yn yr UE

Ar 2 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywydd presennol Cyngor yr UE, Donald Tusk, yr enwebiadau ar gyfer swyddi uwch yr UE. Mae Cyngor yr UE, sy'n cynnwys penaethiaid gwladwriaethau'r UE ac sy'n gweithredu drwy fwyafrif cymwysedig, yn cynnig ymgeiswyr i Senedd Ewrop i'w cymeradwyo o dan **Gytuniad Lisbon**. Rhaid i enwebiad y Cyngor gymryd i ystyriaeth **ganlyniadau etholiadau Senedd Ewrop,** a gynhaliwyd ym mis Mai.

Enwebodd y Cyngor Weinidog Amddiffyn yr Almaen, **Ursula von der Leyen,** i olynu Jean-Claude Juncker fel **Llywydd nesaf Comisiwn yr UE**. Os bydd yn llwyddiannus, Von der Leyen fydd Llywydd benywaidd cyntaf Comisiwn yr UE. Cytunwyd hefyd ar yr enwebiadau ar gyfer y swyddi eraill:

**Llywydd y Cyngor Ewropeaidd** – **Charles Michel** (Prif Weinidog dros dro Gwlad Belg)

**Banc Canolog Ewrop** – **Christine Lagarde** (Rheolwr Gyfarwyddwr y Gronfa Ariannol Ryngwladol)

**Uwch Gynrychiolydd Polisi Materion Tramor a Diogelwch** – **Josep Borrell** (Gweinidog Materion Tramor, yr UE a Chydweithrediad Sbaen, a chyn Lywydd Senedd Ewrop)

Rhaid i **Senedd Ewrop gymeradwyo** enwebiad Llywydd Comisiwn yr UE o fewn mis drwy fwyafrif absoliwt (hanner yr ASEau presennol ynghyd ag un arall). Rhaid i'r Comisiwn llawn, gan gynnwys Llywydd y Comisiwn a'r Uwch Gynrychiolydd dros Faterion Tramor a Diogelwch, hefyd gael ei gymeradwyo gan y Senedd drwy un bleidlais o gydsyniad. Yn dilyn hyn, caiff y rolau eu penodi'n ffurfiol gan Gyngor yr UE (sy'n gweithredu drwy fwyafrif cymwysedig).

Ar 3 Gorffennaf, **dewisodd Senedd Ewrop ei Llywydd newydd**. Cafodd **David-Maria Sassoli,** ASE Eidalaidd y Blaid Ddemocrataidd a chyn Is-Lywydd Senedd yr UE, 345 o blith 667 o bleidleisiau. Bydd yn **gwasanaethu am hanner y tymor seneddol** (dwy flynedd a hanner) cyn trosglwyddo'r rôl i aelod o Blaid Seneddol Ewrop am weddill y tymor.



**Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro – 10 Gorffennaf 2019

## Sefydlu Awdurdod Llafur Ewrop

Ar 13 Mehefin, mabwysiadodd y Cyngor Ewropeaidd **reoliadau** yn sefydlu Awdurdod Llafur Ewropeaidd newydd, a fydd **wedi'i leoli yn Bratislava, Slofacia.** Bydd **yr Awdurdod** yn:

- Gwella mynediad at wybodaeth i weithwyr a chyflogwyr ar eu hawliau a'u rhwymedigaethau;
- cefnogi cydgysylltiad rhwng aelod-wladwriaethau wrth orfodi cyfraith berthnasol yr Undeb ar draws ffiniau, gan gynnwys hwyluso arolygiadau ar y cyd;
- cefnogi cydweithrediad rhwng aelod-wladwriaethau wrth fynd i'r afael â gwaith heb ei ddatgan;
- cynorthwyo'r aelod-wladwriaethau i ddatrys anghydfodau trawsffiniol;
- cefnogi'r broses o gydlynu systemau nawdd cymdeithasol, heb ragfarnu gallu'r Comisiwn Gweinyddol ar gyfer Cydlynu Systemau Nawdd Cymdeithasol.

# 4. Datblygiadau yng Nghymru

## Prif Weinidog Cymru

### Ymweld â Brwsel

Ar 12 Mehefin, cyfarfu'r Prif Weinidog ag arweinwyr gwleidyddol, gan gynnwys **Prif Drafodwr yr UE, Michel Barnier**, i drafod safbwynt Llywodraeth Cymru ar Brexit a'r ffyrdd posibl ymlaen i Senedd y DU. Mewn **datganiad i'r wasg,** dywedodd y Prif Weinidog:

> Yn ystod fy nghyfarfod gyda Michel Barnier gofynnes i iddo sicrhau bod y Cyngor Ewropeaidd yn rhoi digon o amser inni gynnal refferendwm, a byddai Llywodraeth Cymru'n gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn pleidleisio i aros yn yr Undeb Ewropeaidd.

Roedd y datganiad i'r wasg hefyd yn ailbwysleisio safbwynt Llywodraeth Cymru ei bod 'yn credu o hyd mai'r opsiwn gorau i bobl Cymru yw bod y DU yn aros yn yr UE.

### Tynnu cymorth diplomyddol yn ôl

Yn y **Cyfarfod Llawn ar ddiwrnod yr ymweliad â Brwsel,** rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, gyd-destun i'r adroddiadau bod cymorth diplomyddol Llywodraeth y DU wedi'i dynnu'n ôl ar gyfer ymweliad y Prif Weinidog â Brwsel. Dywedodd fod penderfyniad y Swyddfa Dramor a Chymanwlad wedi peri 'penbleth a siom' i Lywodraeth Cymru:

> Fel cyd-destun, dylwn ddweud ein bod wedi cael cymorth o ansawdd uchel gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad fel Llywodraeth Cymru ar bob achlysur blaenorol pan fu Gweinidogion yn ymweld â Brwsel.

Aeth ymlaen i egluro:

> Gallaf gadarnhau bod y Swyddfa Dramor a Chymanwlad wedi hysbysu'r Llywodraeth na fyddent yn darparu cymorth tra oedd y Prif Weinidog ym Mrwsel heddiw, gan gynnwys defnydd o'r gwasanaeth ceir, oni bai ein bod yn rhoi sicrwydd na fyddai'r Prif Weinidog yn tanseilio polisi Llywodraeth y DU. Gwnaethom yn glir fod y Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru o ddifrif ynglŷn â'u dyletswyddau, yn rhinwedd eu swydd fel Gweinidogion y Deyrnas Unedig, i'r Deyrnas Unedig pan fyddant dramor ar fusnes swyddogol, ond nid yw hynny'n golygu eu bod yn ymostyngol i Lywodraeth y DU ac yn sicr nid yw cael defnydd o wasanaethau ceir yn rhan o'r ystyriaeth. Felly, fe wnaethom wrthod rhoi unrhyw sicrwydd a fyddai'n llyffetheirio neu'n llesteirio hawl y Prif Weinidog i siarad dros fuddiannau cenedlaethol Cymru. Yn y pen draw, fel y digwyddodd, fe gynigiwyd cyfleusterau ceir wedyn, ond mae'r Prif Weinidog yn teithio gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus drwy gydol ei ymweliad â Brwsel heddiw.





Ar 2 Gorffennaf, **disgrifiodd y Prif Weinidog** weithredoedd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) fel 'rhai anneallus dros ben'. Eglurodd:

> Nid wyf i byth yn mynd dramor i feirniadu Llywodraeth y DU; rwy'n mynd i wneud y pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn y Siambr hon ac rwyf i'n eu gwneud ar ran Cymru. Pe byddai'r Swyddfa Dramor yn credu am eiliad na fyddwn i'n dweud y pethau y credaf ei bod hi'n bwysig eu dweud ar ran Cymru trwy ddweud na allwn i gael lifft yn un o'u ceir—lifft, gyda llaw, yr ydym ni'n talu amdano; nid yw'n lifft am ddim, rydym ni'n talu amdano bob tro yr ydym ni'n ei ddefnyddio. Pe bydden nhw'n meddwl y byddai hynny'n peri i mi newid fy meddwl, yna mae hynny'n dweud wrthych chi pa mor ychydig y mae'r adran honno yn ei ddeall ar realiti'r ffordd y mae'r Deyrnas Unedig yn gweithredu.

Yn ddiweddarach ailbwysleisiodd safbwynt Llywodraeth Cymru ei bod 'eisiau i'r Deyrnas Unedig fod yn llwyddiant, ac rwyf i eisiau i Gymru fod yn rhan lwyddiannus o Deyrnas Unedig lwyddiannus.'

Cafodd cymorth diplomyddol ei dynnu'n ôl hefyd ar gyfer Prif Weinidog yr Alban, a'i barn hi am hynny oedd ei fod yn gam plentynnaidd a phathetig. Ar 25 Mehefin, estynnodd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad **y polisi hwn** i gynnwys unrhyw gymorth swyddogol neu gonsylaidd ar ymweliadau tramor a ddefnyddid i ymgyrchu dros annibyniaeth yr Alban. Ar ei ymweliad â Swydd Aberdeen, dywedodd yr Ysgrifennydd Tramor, Jeremy Hunt:

> I believe in the union with every fibre of my being and British government policy is to protect, preserve, cherish and enhance that union. So we are not going to offer support to Nicola Sturgeon if she goes abroad to drum up support for independence.

### Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Ar 1 Gorffennaf, **cyhuddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Alun Cairns, y Prif Weinidog** o 'hel bwganod' am effaith bosibl Brexit heb gytundeb. Roedd y cyhuddiad yn dilyn sylwadau a wnaed gan Brif Weinidog Cymru yn ddiweddar. Roedd y rhain yn cynnwys dweud, mewn Cyngor Prydeinig-Gwyddelig:

> nad oedd yr un llais [yn y cyfarfod] oedd yn credu y byddai gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb yn unrhyw beth ond hynod newidiol.

A hefyd bod y:

> tensiynau o fewn y DU yn fwy real ac amlwg nag ar unrhyw bryd yn ystod fy ngyrfa wleidyddol i.

### Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ail refferendwm

Hefyd ar 25 Mehefin, **ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at holl ASau Cymru** i'w hannog i weithredu i atal Brexit dim cytundeb a chyflwyno deddfwriaeth ar gyfer ail refferendwm. Mae'r llythyr yn datgan:

> Dylai unrhyw fargen a gynigir gan unrhyw Lywodraeth fod yn destun refferendwm. Byddai'n gwbl gywilyddus pe byddai unrhyw Lywodraeth yn tynnu'r DU o'r UE heb gytundeb – boed hynny'n fwriadol neu o ganlyniad i ddiffyg gweithredu – heb geisio mandad penodol i wneud hynny.

Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn gefnogol iawn i'r ymdrechion diweddar i reoli agenda'r Senedd ac yn gresynu at y ffaith bod **cynnig** a gyflwynwyd ar 12 Mehefin **wedi methu o 309 o bleidleisiau i 298.** Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 2 Gorffennaf, **roedd ganddo rybudd** i'r rhai sy'n cynnig 'trefniadau amgen' i'r 'backstop' ar gyfer Iwerddon:

> Mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny sy'n siarad am drefniadau amgen ar y ffin ar ynys Iwerddon ddod i egluro i ni sut y bydd y trefniadau amgen hynny'n gweithredu. Nid oes diben mewn dim ond dweud bod ffyrdd eraill y gellid gwneud hyn. Mae'n rhaid i'r bobl hynny sy'n credu hynny gyflwyno cynllun credadwy ynghylch sut y gellir cyflawni hynny.

**Pasiodd y Cynulliad gynnig** yn cefnogi ail refferendwm yn ddiamwys ar 5 Mehefin ar gyfer unrhyw ganlyniad Brexit ac y dylid cynnwys opsiwn i Aros ar y papur pleidleisio. Ar ôl cyfarfod ar 16 Mai, **datgelodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit**, fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, Stephen Barclay, wedi cadarnhau nad oedd Llywodraeth y DU yn gwneud unrhyw baratoadau o'r fath.

## Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

### Cysylltiadau Rhynglywodraethol

Ar 17 Mehefin, bu'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, yn annerch digwyddiad a gynhaliwyd gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru lle trafododd yr heriau sy'n wynebu cysylltiadau rhynglywodraethol. Ailadroddodd **alwadau Llywodraeth Cymru** am:

- Strwythurau rhynglywodraethol cadarn
- Ysgrifenyddiaeth annibynnol;
- Cyngor o Weinidogion y DU;
- Dull annibynnol o ddatrys anghydfodau;





- Confensiwn Cyfansoddiadol i adolygu trefniadau cyfansoddiadol y DU.

At hynny, pwysleisiodd yr angen i weinyddiaethau datganoledig chwarae rhan lawn yn y broses o negodi cysylltiadau rhyngwladol.

### Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu **Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF)** yn lle **Cyllid Strwythurol a Buddsoddi yr UE** ar ôl Brexit. **Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 12 Mehefin,** galwodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit am 'sicrwydd pendant' gan Lywodraeth y DU y gallai Llywodraeth Cymru barhau i ddefnyddio'r cronfeydd a'u halinio i'w blaenoriaethau. Datgelodd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cynnig ei chefnogaeth i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Alun Cairns, i lunio ymgynghoriad ond na dderbyniwyd y cynnig.

Ar 11 Mehefin, cytunwyd ar gynnig yn ystod **Dadl yn y Cyfarfod Llawn** ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd **y cynnig** yn gresynu am y diffyg gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU ynghylch y gronfa a gwrthododd 'y syniad o gronfa ganolog neu gronfa dan gyfarwyddyd y DU neu un sy'n ceisio osgoi'r gweinyddiaethau datganoledig ar ôl Brexit.' Roedd y cynnig hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU i gyflawni ei haddewid i Gymru na fyddai'n 'colli ceiniog' ac i barchu'r annibyniaeth a ddarperir gan ddatganoli i ddatblygu a darparu trefniadau olynu.

### Paratoadau dim cytundeb

Yn ystod y **Cyfarfod Llawn ar 12 Mehefin,** dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, fod adolygiad wedi'i wneud o'r paratoadau dim cytundeb ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Atgoffodd Aelodau'r Cynulliad o'r gofod warws a brynwyd ar gyfer cyflenwadau meddygol ac eglurodd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gynnal trefniadau ar gyfer cyflenwadau meddygol. Anogodd y byrddau iechyd ac ymarferwyr yng Nghymru i beidio â phentyrru meddyginiaethau na rhoi presgripsiynau hirach. Ar 23 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad yn nodi trydydd pen-blwydd refferendwm 2016**, lle dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit 'nad oes unrhyw fandad ar gyfer Brexit heb gytundeb'.

## Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

### Y GIG a masnach ryngwladol

Ar 10 Mehefin, **rhoddodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol dystiolaeth** i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol. Yn dilyn adroddiadau y gallai cytundeb masnach y DU ar ôl Brexit arwain at breifateiddio systemau GIG y DU, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol:

> Legally, it would be difficult for us to stop, because we don't have a veto over trade, in terms of the Welsh Government. Politically, I think it's extremely unlikely to happen.

Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

> This is an area that is devolved, and we would be absolutely clear that we would want a say This is an area that is devolved, and we would be absolutely clear that we would want a say in that. If they were to try and trample on our rights as a devolved area, then we would probably challenge them in court, because we think that they would be stepping on our toes, constitutionally.

Dywedodd Llysgennad yr Unol Daleithiau i'r DU, Woody Johnson, **wrth BBC Cymru** ar 2 Gorffennaf na fyddai rhedeg y GIG ar y gweill mewn trafodaethau am gytundeb masnach rhwng y DU a'r Unol Daleithiau, ond y byddai cyflenwyr yr Unol Daleithiau am gael mynediad at 'farchnad deg a chytbwys' yn GIG Cymru fel rhan o unrhyw gytundeb. Meddai:

> The NHS is a sacred entity in this country. What the president wants is to be part of the thousand or more companies that provide the NHS with soaps and disinfectants and surgical instruments, and all those things.

### Masnach

Ar 10 Mehefin, **mewn tystiolaeth** i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan, fod Llywodraeth y DU yn datblygu concordat, mewn ymgynghoriad â'r gweinyddiaethau datganoledig, a fydd yn nodi sut y gallai gweinyddiaethau'r DU weithio gyda'i gilydd ar gytundebau masnach yn y dyfodol. Yn y **Cyfarfod Llawn** ar 26 Mehefin trafododd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol fasnach ryngwladol Cymru:

> Rydym yn gweithio gyda chwmnïau ledled Cymru i'w cynorthwyo i dyfu eu hallforion ac rydym yn defnyddio ein cysylltiadau rhyngwladol er mwyn eu cysylltu â chyfleoedd.





Gwrthododd y Gweinidog y syniad y gallai'r DU osgoi tariffau yn ystod cyfnod gweithredu a dywedodd bod cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE yn ymddangos 'ymhell i ffwrdd'.

Yn ogystal, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU ffigurau** ar gyfer mewnfuddsoddi i'r DU yn ystod 2018-19. Canfu'r rhain fod nifer y prosiectau mewnfuddsoddi sy'n buddsoddi yn y DU wedi gostwng 14 y cant o gymharu â 2017-18. Yn ystod yr un cyfnod, y gostyngiad yng Nghymru oedd 10.5 y cant. **Dywedodd** Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol fel a ganlyn:

> Does dim dwywaith mai'r ansicrwydd sylweddol y mae busnesau'n ei wynebu oherwydd Brexit sy'n gyfrifol am hyn. Rwy wedi siarad â llu o gwmnïau yn ystod y misoedd diwethaf, sydd wedi dweud wrthyf i eu bod eisiau buddsoddi yng Nghymru ond eu bod yn petruso oherwydd yr ansicrwydd ynghylch natur y berthynas rhwng y DU ac Ewrop yn y dyfodol.
>
> Mae hyn yn achosi niwed sylweddol i'n heconomi. Er bod gwaith Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod y gostyngiad yn nifer y buddsoddiadau'n llai nag yn y DU gyfan, mae'n amser nawr i Lywodraeth y DU ddarparu'r sicrwydd sydd ei angen ar fusnesau.

## Rheoliadau Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (Ymadael a'r UE) 2019

Ar 20 Mehefin, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad** ynghylch rheoliadau a wnaed gan Lywodraeth y DU ar 18 Mehefin o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r rheoliadau'n ymwneud â Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (EGTC), sy'n endidau cyfreithiol, sydd wedi'u cynllunio i hwyluso a hyrwyddo cydweithrediad trawsffiniol, trawswladol a rhyngranbarthol. Maent yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus gymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithredu fel aelodau o'r EGTC. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd modd i awdurdodau cyhoeddus y DU gymryd rhan ar ôl Brexit ond y bydd ganddynt opsiwn i wneud cais am aelodaeth o'r EGTC fel aelodau o drydedd wlad. Dan y rheoliadau, byddai ceisiadau gan awdurdodau cyhoeddus Cymru yn cael eu gwneud i Ysgrifennydd Gwladol y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio ei chred bod y rheoliadau:

> yn cynnwys darpariaeth sy'n atal yr Ysgrifennydd Gwladol rhag cymeradwyo neu wrthod cais heb geisio cytundeb Gweinidogion Cymru.

Fodd bynnag, canfu **adroddiad ar y rheoliadau** gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (CLAC) y Cynulliad fel a ganlyn:

> Mae'r datganiad yn nodi'n gywir, mewn perthynas ag awdurdod datganoledig Cymreig, bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol geisio cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru cyn rhoi cymeradwyaeth i'r cais. Os nad yw Gweinidogion Cymru yn cytuno, rhaid gwrthod y cais. Ar y llaw arall, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o blaid gwrthod y cais, hyd yn oed os yw Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid ei gymeradwyo, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wrthod y cais.

Mae'r adroddiad yn argymell y dylai'r Pwyllgor ofyn am eglurhad pam nad yw'r pwerau'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru. Ar 2 Gorffennaf, **argymhellodd Pwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Senedd y DU uwchraddio'r gwaith craffu ar y rheoliadau hyn** i'r weithdrefn gadarnhaol (gan ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau gael eu gosod a'u cymeradwyo gan dau Dŷ'r Senedd) ar sail pwysigrwydd gwleidyddol.





# 5. Meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

## Iwerddon

### Ymweliad Gweinidogol â Dulyn

Yn ystod **ymweliad â Dulyn ar 13 Mehefin,** cyfarfu Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan, â Simon Coveney, Tánaiste Iwerddon a'r Gweinidog dros Faterion Tramor. Buont yn trafod effaith Brexit, rôl porthladdoedd Iwerddon a Chymru yn y llif o fasnach, a rhaglenni ar y cyd a ariennir gan yr UE, fel y **Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.**

### Swyddfa Is-gennad Iwerddon yn ailagor yng Nghaerdydd

Ar 23 Mehefin, ailagorodd **swyddfa newydd is-gennad Iwerddon** yng Nghaerdydd i hybu masnach rhwng Cymru ac Iwerddon. Mae'r is-gennad, a gaewyd yn flaenorol yn 2009, yn ailagor fel rhan o fenter **'Global Ireland 2025'.** Disgrifir y fenter, a lansiwyd ar 11 Mehefin, fel y cam mwyaf uchelgeisiol erioed o ehangu ac adnewyddu presenoldeb rhyngwladol Iwerddon. Mae lleoliadau eraill yn cynnwys Chile, Colombia, Seland Newydd, Gwlad yr Iorddonen, Vancouver a Mumbai. **Eglurodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan** fel a ganlyn:

> Mae'r berthynas ag Iwerddon yn aruthrol o bwysig i Gymru. Y Weriniaeth yw'n cymydog Ewropeaidd agosaf, ac un o'n partneriaid economaidd pwysicaf. Fel Llywodraeth Cymru, rydyn ni'n benderfynol o greu mwy o gysylltiadau ag Iwerddon dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

### Cyhoeddi proses fapio Ynys Iwerddon

Ar 20 Mehefin, cyhoeddodd **Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Ymdael â'r Undeb Ewropeaidd** ddogfen gwmpasu Llywodraeth y DU ar gydweithrediad rhwng y Gogledd a'r De ar ynys Iwerddon. Lluniwyd y papur cyfrinachol hwnnw ym mis Medi 2017, ac fe'i cafwyd gan aelod o'r cyhoedd trwy gais Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r **papur yn nodi 142 o feysydd cydweithredu trawsffiniol** mewn proses o fapio meysydd polisi cyffredin a wnaed gan yr UE a'r DU. Ystyrir pob ardal yng nghyd-destun Cytundeb Dydd Gwener y Groglith a'r graddau y mae fframweithiau cyfreithiol a pholisi presennol yr UE yn berthnasol. Cafwyd papur ychwanegol hefyd ar **gydweithrediad y Gogledd a'r De ar ofal iechyd.**

